

Safonau'r Iaith Gymraeg – Cyfryngau Cymdeithasol

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â 2 Safon Cyflenwi Gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Cyfryngau Cymdeithasol. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn rhoi'r hawl i aelodau o'r cyhoedd a myfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwybodaeth gan, a chyfathrebu â'r Brifysgol trwy gyfrwng cymdeithasol. Yn ôl y Safonau (rhif 62 a 63) rhaid i'r Brifysgol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac ateb yn Gymraeg i unrhyw gyswllt a wnaethpwyd yn Gymraeg (os oes angen ateb).

Diffinio Cyfryngau Cymdeithasol

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg diffinnir y term 'cyfryngau cymdeithasol' fel gwefan neu raglen sy'n galluogi defnyddwyr i greu a rhannu cynnwys neu i gymryd rhan mewn rhwydweithio cymdeithasol e.e.

- Facebook
- Twitter
- LinkedIn
- Instagram
- YouTube

Pa Gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol sy'n Ddarostyngedig i'r Safonau?

Mae'r Safonau yn berthnasol i ddefnydd y Brifysgol o'r holl gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfrifon corfforaethol
- cyfrifon adrannol
- cyfrifon staff unigol os ydynt yn gweithredu ar ran neu yn enw'r Brifysgol.

Ar gyfer cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigolion, nad ydyn nhw'n gysylltiedig yn unig â'u gwaith, gellir defnyddio dewis iaith yr unigolyn.

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Er mwyn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol gyda'r cyfryngau cymdeithasol gellir gwneud un o'r canlynol:

- cael cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar wahân, un i bob iaith, sy'n cael eu diweddarau ar yr un pryd ac sydd â'r un cynnwys
- cael un cyfrif dwyieithog lle bydd y Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg
- cael un cyfrif sydd yn cynhyrchu yr un faint o gynnwys yn Gymraeg ag yn Saesneg, ond nad yw'r cynnwys hynny o anghenraid yn gyfieithiad o'r naill iaith i'r llall.

Mae'r uchod yn wir ar gyfer cynnwys sydd yn ddeunydd parhaol ar y cyfrif e.e.

- testun bywgraffiad ('bio') ar gyfrif Twitter/Instagram
- testun am y cyfrif yn adran 'Gwybodaeth' Facebook

a hefyd ar gyfer deunydd dros dro lle mae negeseuon yn diflannu ar ôl cyfnod penodol o amser e.e.

- Instagram Story
- Facebook Story

Os gweithredir cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân dylid:

- Ei gwneud hi'n glir ar y cyfrif Saesneg bod cyfrif cyfatebol yn y Gymraeg yn bodoli. (e.e. drwy ddarparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol)

Dolenni o'r Cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol at Adnoddau Eraill

Os bydd dolen yn mynd o'r cyfrif at adnodd arall e.e. dogfen neu wefan, dylid:

- gwirio a oes fersiwn Gymraeg o'r adnodd hwnnw

ac os oes fersiwn Gymraeg dylid:

- darparu dolen i'r fersiwn Gymraeg o'r cyfrif Cymraeg

Os nad oes fersiwn Gymraeg ar gael ac fe luniwyd yr adnodd gan y Brifysgol dylid gwirio a ddylai'r adnodd fod ar gael yn Gymraeg yn unol â'r Safonau. Gellir gwneud hyn drwy ystyried y Safonau perthnasol (gw. *Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth* - <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/safonau/>) neu drwy ofyn am yngor gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

Clipiau Fideo a Sain

Os bydd y cyfrif yn darparu clipiau fideo a/neu sain mae angen iddynt fod ar gael yn Gymraeg os ydynt yn:

- hysbysebu gwasanaethau'r Brifysgol
- rhoi cyhoeddusrwydd i'r Brifysgol

Sylwer nad yw'n dderbyniol defnyddio isdeitlau Cymraeg mewn fideo sy'n cynnwys troslais yn Saesneg, yn hytrach na darparu troslais Cymraeg ar gyfer y fideo.

Os bydd y clipiau yn cael eu darparu gan gorff allanol h.y. nid ydynt yn ymwneud â'r Brifysgol, dylid gwirio a oes fersiwn Gymraeg ar gael a defnyddio y rheini pan yn briodol.

Negeseuon a Rhannu

Nid oes rhaid cyfieithu negeseuon a gyflwynir gan bersonau eraill ar y cyfrifon. Gall negeseuon o'r fath gynnwys gwybodaeth a gyflwynir:

- mewn ystafelloedd sgwrsio
- ar adran ar gyfer sylwadau, neu
- fforwm drafod.

Os bydd cyfrif yn ail-drydar ar Twitter neu yn rhannu gwybodaeth a ddaw gan bersonau eraill ar Facebook, a bod y neges wreiddiol yn Saesneg, nid oes rhaid ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Gohebu drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r Safonau Iaith sydd yn ymwneud â gohebiaeth yn berthnasol i ohebiaeth a dderbynnir trwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd. Felly dylid:

- ateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg
- gwneud hi'n glir bod croeso i bobl ohebu â'r Brifysgol yn Gymraeg.

Argymhellir cynnwys y cymal dwyieithog isod yn nhestun parhaol cyfrifon cymdeithasol:

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.